



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Craffu newidiadau i wasanaethau cymunedol

Canllaw i Awdurdodau Lleol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Arweiniad Adran 12

Cyhoeddir y Canllawiau hyn o dan Adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'n rhaid i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Canllawiau hyn o dan yr adran hon ystyried y Canllawiau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/30/contents>

Cynnwys

Rhagair	04
Y cyd-destun	06
Beth yw gwaith craffu?	10
Pwy sy'n craffu, a sut y dylid craffu?	12
Argymhellion defnyddiol	15
Cwestiynau Craffu ar gyfer Aelodau Etholedig	16
Rôl barhaus gwaith craffu	22
Atodiad A: Nodweddion Craffu Da Cenedlaethol Cymru	23

Rhagair

Un o'm blaenoriaethau i fel Comisiynydd, fel y nodir yn fy Fframwaith Gweithredu ar gyfer 2013-17¹, yw amddiffyn a gwella gwasanaethau cymunedol – gwasanaethau fel canolfannau dydd, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd a thrafnidiaeth y mae pobl hŷn yn nodi'n aml eu bod yn bethau cwbl allweddol.

Er gwaethaf y ffaith eu bod cyn bwysiced i iechyd, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, mae gwasanaethau cymunedol ledled Cymru mewn perygl oherwydd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, sy'n peri pryder mawr i nifer o bobl hŷn.

Ar ben hynny, yn aml mae pobl hŷn yn teimlo mai cyfleoedd prin sydd ganddynt i leisio'u pryderon am newidiadau i wasanaethau cymunedol, neu nad yw eu hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn pan wneir penderfyniadau.

Mewn hinsawdd ariannol heriol, rwyf yn deall y penderfyniadau anodd y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu. Fodd bynnag, rwyf yn disgwyl i Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau allweddol eraill ystyried ac adolygu'n llawn y goblygiadau i bobl hŷn a geir o gau gwasanaeth cymunedol allweddol, a bod pob ymdrech wedi'i wneud i liniaru unrhyw effaith.

Dyna pam yr wyf wedi cyhoeddi'r Canllawiau hyn, a gyflwynir o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006². Maent wedi'u cynllunio i sicrhau bod gwaith craffu cadarn sy'n cael effaith fawr yn mynd rhagddo pan gynigir newidiadau i wasanaethau cymunedol, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau nad oes effaith anghymesur ar bobl hŷn a bod dulliau gweithredu eraill yn cael eu hystyried.

Cyflwynir y Canllawiau hyn mewn dwy ran:

- Mae Rhan 1 yn archwilio pwysigrwydd Aseidiadau cyfredol o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n hyrwyddo'r angen i ddefnyddio Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol pan fo newidiadau i wasanaethau cymunedol yn cael eu hystyried. Mae Rhan 1 yn berthnasol i bob corff gwasanaethau cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymunedol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae Rhan 2 yn archwilio rôl hanfodol gwaith craffu yng nghyswllt newidiadau i wasanaethau cymunedol ac mae wedi'i thargedu at aelodau etholedig a swyddogion llywodraeth leol. Y nod yw gwella ansawdd gwaith craffu a sicrhau bod yr effaith ar bobl hŷn a geir drwy ddod â gwasanaeth

1 http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu.sflb.ashx

2 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/30/contents>

cymunedol i ben neu leihau'r ddarpariaeth yn cael ei dadansoddi a'i hystyried mewn modd trylwyr a manwl.

Lluniwyd y Canllawiau hyn mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y bu eu cyngor a'u gwybodaeth arbenigol yn hynod werthfawr, ac rwyf yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniad. Hoffwn ddiolch hefyd i gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, ac Awdurdodau Lleol Cymru, yn arbennig Cyngor Sir Penfro a Chyngor Caerdydd, am eu cymorth wrth ddatblygu'r Canllawiau hyn.

Mewn cyfnod o newid gwirioneddol i lywodraeth leol, cynlluniwyd i'r Canllawiau hyn gael eu cyflwyno ar ffurf dogfen ddefnyddiol, ymarferol a fydd yn arwain at waith craffu gwell, o ansawdd uchel. Dylid ei hymgorffori'n rhan o arferion gwaith i sicrhau bod gwaith craffu o ansawdd uchel a thrylwyr yn sail i gynigion yn y dyfodol ynghylch gwasanaethau cymunedol.

Fel yr wyf wedi ei bwysleisio'n gyson, bydd amddiffyn a gwella gwasanaethau cymunedol yn arwain at arbedion o ran cost i Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn y tymor canolig i'r tymor hwy, a hynny drwy gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth, gan leihau'r angen am gymorth ffurfiol costus a ddarperir drwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol.

Gall dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau, sy'n seiliedig ar waith craffu effeithiol a chadarn, wneud gwahaniaeth enfawr i'n cymunedau ac, yn y pen draw, i fywydau pobl hŷn.



Sarah Rochira

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Y cyd-destun

Mae colli gwasanaethau cymunedol allweddol, fel bysiau cyhoeddus, toiledau, canolfannau cymunedol a dydd, llyfrgelloedd a dysgu gydol oes yn parhau i fod yn destun pryder mawr i bobl hŷn. Mae dod â'r gwasanaethau hyn i ben neu leihau'r ddarpariaeth yn cael effaith eisoes ar eu bywydau o ganlyniad i benderfyniadau gan Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)³ â'r potensial i fod yn ddarn o ddeddfwriaeth arloesol a thrawsnewidiol, a ddylai sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymdrin â'r broses o ddarparu gwasanaethau gan ystyried y tymor hwy, ac o safbwynt cynaliadwyedd, gan ganolbwyntio ar ddulliau atal a deilliannau i'r unigolyn.

Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ariannol i Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd nesaf yn parhau'n arbennig o heriol. Ers 2010, bu'n rhaid i Awdurdodau Lleol leihau eu cyllid £720 miliwn, a gallant ddisgwyl wynebu diffyg cyllidebol pellach o £941 miliwn erbyn 2019^{4,5}. Disgwylir na fydd y cyllid yn dychwelyd i lefelau 2010-11 cyn 2022-23, gan olygu y bydd gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i leihau⁶.

Gan y disgwylir gostyngiadau cyllidebol pellach, bydd penderfyniadau anodd eraill yn cael eu gwneud ar ddyfodol gwasanaethau cymunedol ledled Cymru. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod Awdurdodau Lleol ac eraill yn ystyried yn llawn oblygiadau'r penderfyniadau hyn i bobl hŷn, sef grŵp oedran sy'n dibynnu'n aml ar y gwasanaethau hyn i gynnal ei iechyd, ei annibyniaeth a'i lesiant.

Er bod y Comisiynydd yn cydnabod y pwysau cyllidebol a roddir ar Awdurdodau Lleol, rhaid i bobl hŷn allu parhau i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol ar ryw ffurf neu'i gilydd. Rhaid peidio ag ystyried gwasanaethau cymunedol yn gostau dewisol neu'n bethau moethus nad ydynt yn hanfodol; rhaid eu hystyried yn hytrach yn asedau cymunedol hanfodol i unigolion, sef yr hyn ydynt mewn gwirionedd. O ganlyniad, mae'n hanfodol mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau ac ystyried gwasanaethau cymunedol yn rhan annatod o'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau polisi allweddol a chyfyngu ar gostau gwasanaethau statudol.

3 <http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?skip=1&lang=cy>

4 <http://www.wlga.gov.uk/canolfan-y-cyfringau-l-e-fwletinaw-wlga/mynnu-ariannu-teg-i-gymru-o-san-steffan>

5 <http://www.wlga.gov.uk/canolfan-y-cyfringau-l-e-fwletinaw-wlga/rhybudd-am-gwtogi-ar-wasanaethau-cynghorau-lleol>

6 <http://www.cfps.org.uk/publications?item=11642&offset=25>

Mae'r broses o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru hefyd yn debygol o gael effaith sylweddol ar y strwythurau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Bu llawer iawn o ddadlau ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei map arfaethedig ynghylch llywodraeth leol yn yr haf yn 2015, ac er nad oes penderfyniad ar y ddadl ynghylch nifer, maint a strwythur Awdurdodau Lleol wedi'i wneud hyd yma, mae'n hollbwysig nad yw'r pwyslais ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl hŷn ac eraill yn cael ei golli.

Mae'r Canllawiau hyn, sydd mewn dwy ran, yn ategu'r blaenoriaethau a ganlyn yn Fframwaith Gweithredu'r Comisiynydd ar gyfer 2013-17⁷:

- Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus;
- Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol; a
- Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

Daw'r Canllawiau hyn hefyd yn sgil cyhoeddiadau blaenorol y Comisiynydd ynghylch gwasanaethau cymunedol:

- Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru (Chwefror 2014)⁸;
- Ymgysylltu Effeithiol gydag Awdurdodau Lleol: Pecyn cymorth ar gyfer Pobl Hŷn (Gorffennaf 2014)⁹; a
- Canllawiau ymarfer gorau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ar newidiadau i wasanaethau cymunedol yng Nghymru (Gorffennaf 2014)¹⁰.

Cyhoeddir y Canllawiau hyn o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006¹¹. Diben y Canllawiau yw sicrhau bod Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a gwaith craffu o ansawdd uchel yng nghyswllt newidiadau i wasanaethau cymunedol i'w cael ar draws llywodraeth leol a chyrrff gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Pan fo newidiadau'n cael eu cynnig, dylai'r Canllawiau hyn helpu Awdurdodau Lleol a chyrrff eraill i

7 http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/13-05-23/Framework_for_Action.aspx#.VpyJVbR3bXQ

8 http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/14-02-25/The_Importance_and_Impact_of_Community_Services_within_Wales.aspx#.VpyJLR3bXQ

9 http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/14-07-01/Effective_Engagement_with_Local_Authorities_Toolkit_for_Older_People.aspx#.VpPgtrR3ZBw

10 http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/14-07-01/Canllawiau_ymarfer_gorau_ar_gyfer_ymgysylltu_ac_ymgynghori_â_phobl_hŷn_ar_newidiadau_i_wasanaethau_cymunedol_yng_Nghymru.aspx#.VpPhTbR3ZBw

11 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/30/section/12>

ystyried yn llawn y goblygiadau i bobl hŷn. Dylai'r broses o gynnal asesiadau a gwaith craffu o'r cychwyn sy'n fwy pendant ac sy'n cael mwy o effaith beri bod Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau eraill yn ystyried y tymor hwy o fewn paramedrau ariannol presennol.

Mae tystiolaeth a gwaith ymchwil blaenorol yn y maes hwn yn awgrymu y gellid gwella gwaith craffu yng Nghymru. Er enghraifft:

- Daeth y 'Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus' (2014) i'r casgliad nad oedd pwysigrwydd pennaf gwaith craffu o ran ysgogi gwelliannau'n cael ei gydnabod, nad yw gwaith craffu wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn aml, a bod rhaid i sefydliadau ystyried gwaith craffu'n fuddsoddiad ar gyfer cyflawni gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol¹².
- Canfu astudiaeth wella 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' Swyddfa Archwilio Cymru (2014) fod angen i gynghorau wneud mwy i ddatblygu gwaith craffu sy'n drylwyr yn gyson er mwyn cynyddu atebolrwydd i'r cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau, a hynny er bod gwaith craffu ym maes llywodraeth leol yng Nghymru yn gwella¹³.
- Canfu'r 'Gwerthusiad o Drefniadau Gweithrediaeth a Chraffu Llywodraeth Leol yng Nghymru' (2015) gan Lywodraeth Cymru fod cryn amrywiaeth o ran sut mae'r system gabinet wedi effeithio ar brosesau gwneud penderfyniadau lleol, mai lefel wael o ddatblygiad sydd yn achos craffu ar bartneriaethau a chraffu ar y cyd, a bod ymwneud y cyhoedd â phrosesau gwneud penderfyniadau a'u cyfranogiad ynddynt yn gyfyngedig¹⁴.
- Canfu astudiaeth 'Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?' (2015) gan Swyddfa Archwilio Cymru fod prinder data yn ei gwneud yn anodd i gynghorau ddangos effaith eu gwasanaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, a bod hyn yn lleihau eu gallu i graffu a gwneud penderfyniadau wrth bennu blaenoriaethau yn y dyfodol. Dylid sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith fel bod modd deall yn well effaith gostyngiadau cyllidebol a chefnogi gwaith goruchwyllo a chraffu¹⁵.

Caiff lleisiau pobl hŷn eu clywed yng ngwaith y Comisiynydd drwyddo draw, ac mae eu barn, eu pryderon a'u blaenoriaethau wedi'u hadlewyrchu yn y

12 <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf>

13 <http://audit.wales/cy/cyhoeddi/craffu-da-cwestiwn-da-astudiaeth-wella-archwilydd-cyffredinol-cymru-craffu-mewn-llywodraeth>

14 <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150108-welsh-local-government-executive-scrutiny-arrangements-cy.pdf>

15 <http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Independence-Older-People-2015-Welsh.pdf>

Canllawiau. Cynhaliwyd cyfres o drafodaethau â rhwydweithiau a grwpiau pobl hŷn yn yr hydref yn 2015, a chyfarfu swyddfa'r Comisiynydd â phobl hŷn yn y lleoliadau a ganlyn: Pen-y-bont ar Ogwr, Gwalchmai (Ynys Môn), Hwlfordd (Sir Benfro), Blaenafon (Torfaen), Llandudno (Conwy), y Fenni (Sir Fynwy), Caerdydd, Caerfyrddin (Sir Gaerfyrddin), Wrecsam, Cei Connah (Sir y Fflint).

Gan eu bod yn gyrff rhestredig o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru), rhaid i bob Awdurdod Lleol a chyrrff perthnasol eraill roi sylw dyledus i'r Canllawiau hyn.

Rhaid peidio â bwrw ymlaen â newidiadau i wasanaethau cymunedol yn y dyfodol heb ddadansoddiad llawn a chadarn o'r effaith y bydd y rhain yn ei chael ar iechyd, annibyniaeth, llesiant a hawliau pobl hŷn.

Beth yw gwaith craffu?

Gall gwaith craffu a herio cadarn helpu Awdurdodau Lleol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a dangos eu bod yn cynnwys rhanddeiliaid fel pobl hŷn. Mae gwaith craffu effeithiol yn mabwysiadu argymhellion Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn ystyried yn llawn yr effaith debygol ar grwpiau gwarchoddedig gwahanol. Mae'n gallu darparu fforwm niwtral yng nghyswllt dadleuon ar wasanaethau cymunedol, gan bontio rhwng pobl leol, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Y prif gwestiwn yw: **sut y mae gwaith craffu'n ychwanegu gwerth?**

Cydnabu Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru o Fesur Llywodraeth Leol 2011 fod angen i waith craffu fod yn "annibynnol ... â digon o adnoddau ac [yn] effeithiol er mwyn nodi unrhyw wendidau mewn darpariaeth gwasanaeth a chynnig gwelliannau ... mae'n hanfodol bod pob cynghorydd yn cyfrannu'n llawn at y craffu"¹⁶, tra bo'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod i'r casgliad bod "craffu cyhoeddus yn fath penodol a hanfodol o atebolrwydd yn y sector cyhoeddus. ...rhaid arddel a diogelu annibyniaeth gwaith craffu yn gadarn ...[e]r mwyn dwyn i gyfrif yn effeithiol a nodi cyfleoedd adeiladol i wella, rhaid neilltuo adnoddau priodol i waith craffu fel y gellir cwestiynu'n gadarn ac yn heriol."¹⁷

"Nid yw mwyafrif yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu gweld byth; nid yw mwyafrif yr adroddiadau i fwrdd y Cyngor byth yn mynd drwy broses graffu ... mae'r toriadau i wasanaethau'n effeithio bob amser ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas ... ni allaf fynd i'r siopau gan nad oes toiled cyhoeddus." (Fforwm Pobl Dros 50 oed Wrecsam ac aelodau grŵp 'Wrexham Include')

Gan ystyried newidiadau demograffig a'r angen i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau i gynnal annibyniaeth pobl hŷn, **mae'n hollbwysig i waith craffu ganolbwyntio ar ddeilliannau yn y tymor hwy gymaint ag y bo modd yn yr hinsawdd ariannol bresennol**¹⁸.

Dylai gwaith craffu adolygu blaenoriaethau a chanlyniadau polisi a herio'r weithrediaeth ynglŷn â'i gweithredoedd i gyflawni nodau polisi datganedig. Mae hawl yn y broses graffu hefyd i 'alw penderfyniadau allweddol i mewn' a gofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad ailfeddwl, neu atgyfeirio'r penderfyniad i'r cyngor llawn i'w ystyried. Dylid ystyried gwaith craffu yn rheng amddiffyn

¹⁶ <http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/statguide/?skip=1&lang=cy>

¹⁷ <http://gov.wales/topics/improvingervices/public-service-governance-and-delivery/?skip=1&lang=cy>

¹⁸ <http://www.cfps.org.uk/publications?item=11642&offset=25>

derfynol, a dylai aelodau etholedig sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn am gynigion ynghylch gwasanaethau cymunedol a'u bod yn cael eu hateb cyn cytuno ar unrhyw newidiadau o ran darparu gwasanaethau a all effeithio ar bobl hŷn.

Arferion da

Mae gan Gyngor Sir Penfro bwyllgor craffu pwrpasol ar gyfer mynd i'r afael â materion pobl hŷn. Swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pobl Hŷn, Iechyd a Lles yw adolygu neu graffu ar faterion a gwasanaethau sy'n berthnasol i iechyd a lles, ond yn arbennig rhai sy'n ymwneud â phobl hŷn¹⁹.

Un enghraifft o'r modd y mae'r Pwyllgor yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau oedd y cynnig diweddar Sir Benfro yn Dysgu – Rheoli'r Gostyngiad yng Nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu i Oedolion ac yn y Gymuned. Mynegodd aelodau'r pwyllgor bryderon am y modd y gwnaed penderfyniad y cabinet heb ymgynghori â'r cyhoedd a heb ystyried yn ddigonol sut y bydd cau Canolfannau Dysgu Cymunedol yn effeithio ar bobl hŷn ac eraill²⁰. O ganlyniad, penderfynodd y cabinet gynnal ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn archwilio'r mater ymhellach, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r cabinet erbyn mis Tachwedd 2015²¹.

Gall gwaith craffu helpu aelodau etholedig i herio lefelau ac ansawdd gwaith cyflawni, cynnal ymchwiliadau manwl i gynnydd amcanion neu brosiectau penodol, ac ychwanegu gwerth at asesiadau effaith i sicrhau eu bod yn gadarn. Canfu adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 'Adolygiad o'r modd y defnyddir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus' fod angen cryfhau'r gwaith o graffu ar yr Asesiadau hyn, gan roi fwy o rôl i arweinwyr cydraddoldeb, a bod angen iddo sicrhau bod gan baneli craffu, e.e. byrddau a phwyllgorau, y sgiliau a'r wybodaeth yng nghyswllt cydraddoldeb sydd eu hangen i gyflawni eu rôl²². Mater allweddol arall yw'r cymorth a ddarperir i'r broses graffu. Yn aml, rhaid i ymarferwyr ymdrin â Blaenraglenni Gwaith gorlawn ac amserlenni prysur, ac yn aml rhaid iddynt sicrhau y rhoddir digon o amser a sylw i drafodaethau am wasanaethau cymunedol hollbwysig ac nad ydynt yn colli tir i flaenoriaethau eraill.

19 http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,2159,2170&parent_directory_id=646&language=CYM

20 <http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=283&MID=3305#AI22904&LLL=0>

21 [http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/Published/C00000281/M00003161/\\$\\$\\$Minutes.doc.pdf?LLL=0](http://mgenglish.pembrokeshire.gov.uk/Published/C00000281/M00003161/$$$Minutes.doc.pdf?LLL=0)

22 <http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cydraddoldeb/adroddiad-adolygiad-or-modd-y-defnyddir-asesiadau-effaith-ar-gydraddoldeb-yn-y-sector-cyhoeddus>

“Ar draws Sir Benfro, dim ond 7 o 83 o doiledau cyhoeddus a glustnodwyd a gafodd eu cau yn y pen draw (yn dilyn ymgynghoriad) ... mae hynny'n dda, er nad oes neb yn gofyn a ydynt o'r un safon ag o'r blaen.” (Aelod Fforwm Canolog 50+, Sir Benfro)

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r broses o ddiwygio llywodraeth leol a chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ynghyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol yn golygu y bydd gwaith craffu yng Nghymru yn destun newidiadau helaeth yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r gwaith o ddatblygu trefniadau effeithiol ynghylch craffu ar y cyd ar gyfer achosion newydd o gydweithredu a'r rhai sy'n dod i'r amlwg hefyd yn debyg o fod yn ganolbwynt allweddol i wasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf²³.

Pwy sy'n craffu, a sut y dylid craffu?

Mae gwaith craffu'n berthnasol i bob un o aelodau etholedig Awdurdod Lleol, ac yn arbennig y rhai a ganlyn:

- **Y Cabinet / y Weithrediaeth:** Mae'r cabinet neu'r weithrediaeth yn gyfrifol am gynnig strategaethau allweddol, a fframwaith y polisiau a'r gyllideb. Mae ganddo bŵer i wneud pob penderfyniad gweithredol yn ôl fframwaith y polisiau a'r gyllideb y cytunodd yr Awdurdod Lleol arno.
- **Cadeirydd Gwaith Craffu:** Gall cadeirio'n dda wella effeithiolrwydd gwaith craffu drwy ddarparu arweiniad, sicrhau bod y gwaith craffu'n mynd rhagddo'n effeithlon ac yn defnyddio adnoddau yn y modd gorau, a chan hyrwyddo gwaith craffu yn y sefydliad ac yn allanol.
- **Cynghorwyr craffu:** Eu rôl yw adolygu polisiau a chynigion a herio'r weithrediaeth i ganfod a yw wedi gwneud y penderfyniadau cywir i gyflawni nodau polisi. Mae'r cynghorwyr hyn yn archwilio effaith penderfyniadau'r cabinet a'r dull o'u gweithredu, yn dwyn yr Arweinydd a'r cabinet i gyfrif, ac yn craffu ar sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau i breswylwyr.
- **Paneli craffu:** Pan fo pwyllgorau neu fyrddau craffu yn trafod cynigion ynghylch gwasanaethau cymunedol, dylent ofyn am wybodaeth am yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol sydd wedi'u cynnal. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn helpu i lywio'u trafodaethau ac o ran gwneud sylwadau am gynigion. Gall paneli craffu ymchwilio i'r Asesiadau hyn yn fanylach i sicrhau eu bod wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwaith ymgysylltu cadarn.

²³ http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/WAO_Scrutiny_Report_Welsh_2014.pdf

Yn ôl Pedair Egwyddor Gwaith Craffu Cyhoeddus Da²⁴, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, dylai gwaith craffu effeithiol:

- Fod yn ‘ffrind beirniadol’ i swyddogion gweithredol, awdurdodau allanol ac asiantaethau;
- Adlewyrchu llais a phryderon y cyhoedd a’i gymunedau;
- Cymryd yr awenau a bod yn berchen ar y broses graffu ar ran y cyhoedd; a
- Chael effaith ar y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae’r Ganolfan hefyd wedi nodi nodweddion gwaith craffu da, gan gynnwys yr hyn a ganlyn (mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad A)²⁵:

<p>Canlyniadau Gwell</p>	<p>Sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn llwyddo i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. Dylai craffu gael rôl a ddiffiniwyd yn eglur ac a werthfawrogir yn nhrefniadau gwella a llywodraethu’r cyngor. Mae ganddo gefnogaeth ymrwymedig gan swyddogion sy’n gallu ymgymryd ag ymchwil annibynnol yn effeithiol, a darparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr.</p>
<p>Penderfyniadau Gwell</p>	<p>Sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â’u rôl yn effeithiol, bod craffu’n cael ei arwain gan gynghorwyr a bod cyfarfodydd a gweithgareddau’n cael eu cynllunio’n dda, eu cadeirio’n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael iddynt.</p>
<p>Ymgysylltiad gwell</p>	<p>ESicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys yn ystyrllon mewn trafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol. Dylai craffu gael ei gydnabod yn ddull pwysig yn y cyngor ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned, a hwyluso mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion mewn llywodraethu. Dylai alluogi ‘llais’ pobl leol a chymunedau ar draws yr ardal i gael ei glywed yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau</p>

24 <http://www.cfps.org.uk/mission-and-purpose>

25 <http://www.cfps.org.uk/publications?item=11642&offset=25>


Arferion Da

Yn 2011/12, lluniodd Pwyllgor Sgriwtni yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ynys Môn adroddiad ynghylch ‘Dyfodol y Ddarpariaeth o Doiledau Cyhoeddus ar Ynys Môn’²⁶. Cydnabu’r adroddiad fod toiledau cyhoeddus “yn cael eu gweld yn aml fel llinell fywyd i’r henoed yn arbennig” a’i bod felly’n hanfodol ymgynghori â phobl hŷn “mewn perthynas ag unrhyw restr fer o doiledau y bwriedir eu cau”, a hynny’n gynnar yn y broses.

Yn dilyn ymgynghoriad â phobl hŷn, canfuwyd nad oedd llawer o ymwybyddiaeth o’r ddarpariaeth amgen, ac argymhellwyd o ganlyniad fod “Swyddogion yn gweithio gyda’r sefydliadau cyfredol sy’n rhan o’r Cynllun Grant Toiledau Cyhoeddus i wella arwyddion a gwella’r modd yr hyrwyddir y cyfleusterau hyn”.

“Efallai y byddant yn ymgynghori ... ond os ydynt yn gwneud hyn gyda’r nos, mae hynny’n rhy hwyr i bobl hŷn, heb sôn am drafnidiaeth ... mae popeth yn symud i fod ar-lein erbyn hyn ac nid yw pawb yn gallu ei ddefnyddio na’i fforddio.” (Aelod o Fforwm Pobl Hŷn Blaenafon, Torfaen)

Mae dogfen ganllaw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ‘Rôl Trosolwg a Chraffu wrth Asesu Perfformiad Cydraddoldeb’ yn cyfeirio at fodel ‘Saith Ffactor Llwyddiant’ Llywodraeth Cymru (2008) ar gyfer sicrhau gwaith craffu effeithiol²⁷:



26 <http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2011/12/01/papur-b-sgriwtni-amgylch-05-12-11.pdf>

27 <http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cydraddoldeb/cyhoeddiad-wlga-rl-trosolwg-a-chraffu-wrth-asesu-perfformiad-cydraddoldeb>

Argymhellion defnyddiol

- **Sicrhau ymrwymiad a chyfranogiad gwirioneddol gan bob Aelod, Swyddog a Phartner:** A ymgynghorwyd â'r Eiriolwyr dros Bobl Hŷn a'r Eiriolwyr Cydraddoldeb, er enghraifft, ynglŷn â'r cynnig? A yw'r cabinet/y weithrediaeth yn agored i bryderon a fynegwyd drwy waith craffu am anghydraddoldebau?
- **Canolbwyntio ar y pethau cywir:** A yw'r gwaith craffu'n ystyried Cynllun Strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Cydraddoldeb a'i amcanion Cydraddoldeb²⁸? A yw'n glir sut y mae anghenion, pryderon a hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnwys ar yr agenda gwaith craffu?
- **Trefnwch yr hyn a wnewch chi:** Darllenwch wybodaeth o flaen llaw a gofynnwch gwestiynau perthnasol ac amserol. A yw'r gwaith craffu'n adolygu cynigion ynghylch gwasanaethau cymunedol ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb/Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol? Cofiwch fod gan aelodau etholedig hawl ddilys i herio materion cyllidol Awdurdod Lleol a'r modd y defnyddir cyllid
- **Mynnwch y lefel gywir o gefnogaeth:** A yw cynghorwyr craffu wedi'u hyfforddi o ran materion cydraddoldeb? A yw swyddogion cydraddoldeb ar gael i raddau digonol?
- **Sicrhewch safbwyntiau annibynnol a gwrthrychol:** A yw pwyllgorau craffu'n gwneud darpariaethau i glywed gan grwpiau cymunedol neu fforymau pobl hŷn pan fo cynnig ynghylch gwasanaeth cymunedol yn cael ei gyflwyno?
- **Mynnwch ddysgu a gwella o hyd:** A oes unrhyw fylchau o ran hyfforddiant neu sgiliau y mae angen mynd i'r afael â hwy? A yw gwersi'n cael eu dysgu o adolygiadau craffu blaenorol?
- **Mynnwch y canlyniadau a'r effeithiau cywir:** A yw'r gwaith craffu'n helpu i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl, meithrin cysylltiadau da rhwng pobl) a Deddf Hawliau Dynol 1998?

²⁸ <http://www.wlga.gov.uk/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-llywodraeth-leol>

Cwestiynau Craffu ar gyfer Aelodau Etholedig

<p>Defnyddio Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn effeithiol</p> <p>(gweler Rhan 1 o'r Canllawiau i gael rhagor o wybodaeth)</p>	<ul style="list-style-type: none">• A yw Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'i gynnal? Os yw, a all yr Arweinydd a'r Cabinet/Uwch-swyddogion ddarparu copïau ac eglurhad manwl i'r aelodau o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a gynhaliwyd yng nghyswllt y cynigion hyn? A yw camau gweithredu penodol wedi'u nodi i liniaru'r effaith ar bobl hŷn?• Pa waith ymgysylltu²⁹ ac ymgynghori â phobl hŷn a gynhaliwyd fel rhan o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yng nghyswllt y cynigion hyn? A yw'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru wedi'u cymhwyso ?• A yw proses yr Awdurdod Lleol ar gyfer Aseu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn canfod anghenion a safbwyntiau pobl hŷn yn ddigonol? Pa gamau a gymerwyd i sicrhau y rhoddwyd pob cyfle i bobl hŷn leisio'u hanghenion a'u pryderon? A yw'r rhain wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol?
---	---

²⁹ <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles?seq.lang=cy-GB>

<p>Cydymffurfio â Fframwaith Cyfreithiol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A all yr Arweinydd a'r Cabinet/Uwch-swyddogion roi sicrwydd i'r aelodau fod y cynigion hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng nghyswllt pobl hŷn? A yw'r cynigion yn cydymffurfio â Chynllun Strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Cydraddoldeb? • Pa gamau y mae'r Awdurdod Lleol wedi'u cymryd i sicrhau bod y cynigion hyn yn cyflawni ymrwymadau statudol i bobl hŷn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998? • A oes unrhyw berygl y gall y cynigion hyn fod yn achos o dorri hawliau dynol pobl hŷn? A effeithir ar bobl hŷn sydd â nifer o nodweddion gwarchoddedig? A yw Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a'r Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru wedi'u hystyried a'u cymhwyso'n llawn? A yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi'i ystyried? • A yw Nodweddion Craffu Da Cenedlaethol Cymru wedi'u cymhwyso (gweler Atodiad A)?
--	---

<p>Lliniaru effeithiau mesurau caledi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r effaith a ddisgwylir ar bobl hŷn? A all yr Arweinydd a'r Cabinet / Uwch-swyddogion ddarparu manylion i'r aelodau ynghylch y cynlluniau i lliniaru effaith y cynigion hyn ar bobl hŷn? • Os yw'n amlwg bod y cynigion hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn, sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn rheoli hyn? A yw trefniadau a darpariaethau eraill wedi'u rhoi ar waith? A ymchwiliwyd i ddulliau arloesol o arbed costau e.e. Trosglwyddo Asedau Cymunedol³⁰? • Faint y bydd cynnal y gwasanaeth cymunedol yn ei gostio? A yw'r gost hon ar gyfer y flwyddyn ariannol hon neu a yw'n gost barhaus? Beth fydd yn digwydd os na fydd hyn yn cael ei gyllido? A oes unrhyw gyllid allanol ar gael? A ellid codi tâl am hyn? A ellir gohirio'r cynnig? A fydd yr effaith ar bobl hŷn yn cael ei monitro a'i hadolygu? • Sut y mae'r cynnig yn cyfrannu at gynllun arbedion yr Awdurdod Lleol ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir? Sut y lluniwyd penderfyniadau er mwyn penderfynu o blith dewisiadau? A ymgynghorwyd â grwpiau pobl hŷn, gan gynnwys y Fforwm 50+ lleol? • Gan fabwysiadu'r dull o weithredu ar sail asedau yng nghyswllt gwasanaethau cymunedol, sut y mae'r penderfyniadau'n cyfrannu at y model o 'bobl hyn a ystyrir yn asedau' ac yn helpu i gynyddu eu cyfraniad blynyddol o £1 biliwn at economi Cymru, gan helpu unigolion, cymunedau ac economïau lleol wrth wneud hynny?
--	---

³⁰ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-asset-transfer/?skip=1&lang=cy>

<p>Lliniaru effeithiau mesurau caledi (parhad.)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut y mae'r penderfyniadau'n cyfrannu at fodel 'Ansawdd Bywyd' y Comisiynydd Pobl Hŷn, hynny yw 'Rwyf yn teimlo bod rhywun yn gwranddo arnaf ac yn fy mharchu'; 'Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi'; 'Gallaf gael yr help sydd ei angen arnaf'; 'Rwyf yn byw mewn lle sy'n addas i mi a fy mywyd'³¹? • Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sefydlu cymunedau cyfeillgar i oed drwy gyfrwng Datganiad Dilyn, sef ymrwymiad fel rhan o Raglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru³². Sut y mae'r cynigion hyn yn cyfrannu at sefydlu cymunedau cyfeillgar i oed ac ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i rymuso pobl hŷn a chynnal eu hiechyd a'u hannibyniaeth?
<p>Cwestiynau penodol am wasanaethau cymunedol</p>	<p>Bysiau cyhoeddus</p> <p>Mae trafndiaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn lleihau problemau iechyd corfforol a meddyliol ymhlith pobl hŷn. Mae hefyd yn hollbwysig er mwyn cysylltu pobl hŷn â'u ffrindiau a'u teulu, ymarferwyr cyffredinol ac ysbytai, siopau a gwasanaethau allweddol, ac mae'n gwneud llawer i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol. Mae cerdyn bws di-dâl i bobl hŷn yn werth dim os nad oes bws ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn llwyr yr effaith enbyd y gallai dileu'r gwasanaeth hwn, sy'n cynnig cyswllt allweddol, ei chael ar bobl hŷn • A oes darpariaeth arall ar gael e.e. cynllun trafndiaeth gymunedol i liniaru'r effaith?

31 http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu.sflb.ashx

32 <http://agefriendlyworld.org/en/the-dublin-declaration-on-age-friendly-cities-and-communities-in-europe-2013/>

Cwestiynau penodol am wasanaethau cymunedol (parhad.)

Toiledau cyhoeddus

Mae toiledau cyhoeddus yn hollbwysig o ran cynnal iechyd ac annibyniaeth pobl hŷn. Os na ddarperir cyfleusterau cyhoeddus, ni fydd pobl hŷn ac eraill yn gadael eu cartrefi, ac o ganlyniad maent yn agored i ystod eang o broblemau iechyd corfforol a meddyliol. Mae ar bawb angen toiled cyhoeddus, a gall dileu'r cyfleusterau hyn beri bod ein pentrefi/trefi/dinasoedd yn ardaloedd nad oes modd i bobl ymweld â hwy:

- A yw'r Awdurdod Lleol wedi ymchwilio'n llwyr i effaith cau'r toiled cyhoeddus hwn nid yn unig ar bobl hŷn ond ar eraill yn y gymdeithas (gan gynnwys yr effaith ar dwristiaeth)?
- A ymchwiliwyd i drefniadau eraill, neu a gawsant eu rhoi ar waith, e.e. busnesau lleol yn cynnig eu cyfleusterau toiledau i'r cyhoedd, neu gynlluniau trosglwyddo asedau cymunedol?

Llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan fawr ym mywydau pobl hŷn. Mae pwysigrwydd llyfrgelloedd yn ymwneud â llawer mwy na llyfrau; maent yn fannau lle y mae pobl hŷn yn datblygu sgiliau digidol, yn cymdeithasu ac yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau sy'n helpu i'w cadw'n weithgar yn gorfforol ac yn feddyliol:

- A yw'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn llawn effaith cau'r llyfrgell hon ar bobl hŷn?
- Pa drefniadau eraill sydd ar waith i sicrhau y gall pobl hŷn barhau i gael gafael ar lyfrau ac ymgymryd â dulliau dysgu digidol a gweithgareddau cymdeithasol eraill?

Cwestiynau penodol am wasanaethau cymunedol (parhad.)

Llyfrgelloedd cyhoeddus (parhad.)

- Does the Local Authority have another community hub in place for older people? Is the Local Authority committed to tackling loneliness and isolation amongst older people by proposing other venues where older people can meet, socialise and contribute to their local communities (these questions also apply to proposals around community and day centres)?

Dysgu gydol oes

Mae dysgu'n creu amryw o fanteision i bobl hŷn. I rai, mae'n ffordd bwysig o'u helpu i gadw'n weithgar yn gorfforol ac yn feddyliol pan fônt wedi ymddeol. I eraill, mae'n ffordd hollbwysig o barhau i weithio, neu fynd yn ôl i waith. Mae dysgu'n helpu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, yn cyfrannu at ddatblygiad setiau sgiliau personol, ac mae'n cynyddu effeithlonrwydd wrth weithio neu wirfoddoli:

- A yw'r Awdurdod Lleol wedi ymchwilio'n llwyr i effaith terfynu'r ddarpariaeth dysgu gydol oes hon ar bobl hŷn ac eraill?
- A yw'r Awdurdod Lleol wedi darparu trefniadau eraill fel y gall pobl hŷn barhau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu y mae arnynt eu hangen yn ddirfawr?

Rôl barhaus gwaith craffu

Cofiwch mai proses barhaus yw gwaith craffu; **nid yw gwaith craffu'n dod i ben pan wneir penderfyniad ar gynnig ynghylch gwasanaeth cymunedol, ac nid yw'n dod i ben ychwaith pan fo adroddiad yn cael ei anfon i'r Cabinet.** Mae'n hollbwysig fod unrhyw newidiadau i wasanaethau cymunedol yn cael eu monitro a bod yr effaith ar bobl hŷn ac eraill yn cael ei hystyried. Gall terfynu neu leihau'r graddau y darperir gwasanaeth cymunedol allweddol, sef gwasanaeth y gallai pobl hŷn ei ddisgrifio'n 'gyswllt allweddol', gael effaith fawr ar iechyd a llesiant pobl hŷn, ac felly gall fod angen craffu ar y cynnig yn ddiweddarach (gweler Rhan 1 o'r Canllawiau i gael rhagor o wybodaeth am Dryloywder ac Adolygu yng nghyswllt Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol (Atodiad A)).

Ystyriwch y cwestiynau a ganlyn cyn pen blwyddyn ar ôl y penderfyniad:

- A weithredwyd unrhyw gamau lliniaru neu a ddarparwyd y cynnig ynghylch gwasanaeth cymunedol fel y cynigiwyd yn wreiddiol cyn i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol gael ei gynnal?
- A gyflawnwyd y deilliannau a oedd yn gysylltiedig â'r cynnig neu a gafwyd canlyniadau eraill? A welwyd ei fod yn gynnig effeithiol ar gyfer arbed costau i'r Awdurdod Lleol? A oes unrhyw dystiolaeth fod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn wedi cynyddu o ganlyniad, a hynny'n anuniongyrchol?
- A oedd yr effeithiau wedi'u cyfyngu i'r grŵp yr oeddech yn meddwl i ddechrau y byddai effaith arnynt, er enghraifft pobl hŷn, neu a effeithiwyd ar eraill e.e. pobl ag anableddau, rhieni â phlant ifanc?

Atodiad A: Nodweddion Craffu Da Cenedlaethol Cymru³³

Mae atebolrwydd democrataidd yn arwain at welliant o ran gwasanaethau cyhoeddus: Canlyniadau Gwell

- Mae gan waith trosolwg a chraffu rôl benodol a gwerthfawr o ran gwaith gwella a llywodraethu'r Cyngor
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arno gan swyddogion penodedig sy'n gallu gwneud gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n cynnig cyngor, hyfforddiant a dull dadansoddi o safon i gynghorwyr
- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn cynnig datrysiadau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig

Mae'r broses gwneud penderfyniadau ddemocrataidd yn atebol, cynhwysol a chadarn: Penderfyniadau Gwell

- Mae cynghorwyr trosolwg a chraffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Mae'r broses yn cael cymorth effeithiol gan dîm rheoli corfforaethol y cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu o safon uchel a'i bod yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn cael ei arwain gan gynghorwyr, mae'n ystyriol o safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac mae'n cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon cymunedol yn erbyn materion risg a phwysigrwydd strategol
- Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu yn cael eu cynllunio'n dda a'u cadeirio'n effeithiol, ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

³³ <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Cynghorwyr-a-chyfarfodydd/Craffu/Documents/Canllawiau%20ar%20gyfer%20Craffu%20effeithiol%20yng%20Nghymru.pdf>

- Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu.

Mae'r cyhoedd yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn awr ac yn y dyfodol: Ymgysylltu Gwell

- Caiff y gwaith trosolwg a chraffu ei gydnabod gan y weithrediaeth a'r tîm rheoli corfforaethol yn un o ddulliau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ac mae'n hwyluso mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion yn y gwaith llywodraethu
- Nodweddir gwaith trosolwg a chraffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad
- Mae'r gwaith craffu yn gweithredu'n anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthynasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol
- Mae gwaith trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau

